

Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

Dyddiad:
Dydd Mawrth, 29 Ionawr 2013

Amser:
09:00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Naomi Stocks
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8421
deisebau@cymru.gov.uk

Kayleigh Driscoll
Dirprwy Clerc y Pwyllgor
029 2089 8421
deisebau@cymru.gov.uk

Agenda

- 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon 09.00**
- 2. Deisebau newydd 09.00 – 09.20**
 - 2.1 P-04-448 Gwella gwasanaethau iechyd rhywiol yng ngorllewin y Fro (Tudalennau 1 – 3)
 - 2.2 P-04-449 Ysbyty Tywysoges Cymru Pen-y-bont ar Ogwr – Achub ein Gwasanaethau – Atal yr Israddio! (Tudalen 4)
 - 2.3 P-04-450 Mae Angen Ysbyty Cwbl Weithredol ar y Barri a Bro Morgannwg (Tudalen 5)
 - 2.4 P-04-451 Achub Gwasanaethau Ysbyty Brenhinol Morgannwg (Tudalen 6)
 - 2.5 P-04-452 Hawliau Cyfartal i Bobl Ifanc Tiwb-borthedig (Tudalen 7)
 - 2.6 P-04-453 Gwelliannau ym Maes Awyr Caerdydd (Tudalen 8)
 - 2.7 P-04-454 Gwahardd yr Arfer o Ddal Swyddi fel Cyngorydd ac fel Aelod Cynulliad ar yr un Pryd (Tudalen 9)
 - 2.8 P-04-455 Achub adran achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip (Tudalen 10)
- 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol 09.20 – 10.00**
 - 3.1 P-04-421 Rhwystro Trident rhag dod i Gymru (Tudalennau 11 – 12)
 - 3.2 P-04-434 Mae'r Cymry a'r Somaliaid fel ei gilydd yn caru barddoniaeth (Tudalennau 13 – 14)

Tai, Adfywio a Threftadaeth

- 3.3 P-04-322 Galw am ryddhau gafael Cadw ar eglwysi yng Nghymru (Tudalennau 15 – 17)

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- 3.4 P-03-236 Siarter i Wyrion ac Wyresau (Tudalennau 18 – 20)

Llywodraeth Leol a Chymunedau

- 3.5 P-03-187 Diddymu'r Tollau ar ddwy Bont Hafren (Tudalennau 21 – 32)
- 3.6 P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felfre (Tudalennau 33 – 35)

Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd

- 3.7 P-04-345 Cysylltiadau bws a rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin (Tudalen 36)
- 3.8 P-04-429 Ailagor y rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth (Tudalennau 37 – 40)
- 3.9 P-04-363 Cynllun i Wella Canol Tref Abergwaun (Tudalennau 41 – 92)
- 3.10 P-04-409 Enwau Cymraeg i bob cefnffordd newydd yng Nghymru (Tudalennau 93 – 94)

Addysg a Sgiliau

- 3.11 P-04-376 Aildrefnu Addysg ym Mhowys (Tudalennau 95 – 96)
- 3.12 P-04-427 Cyfraith newydd ynghylch y Gymraeg (Tudalennau 97 – 98)
- 3.13 P-04-437 Gwrthwynebu cofrestru gorfodol ar gyfer plant sy'n derbyn addysg yn y cartref (Tudalennau 99 – 100)
- 3.14 P-04-442 Sicrhau cymorth da i blant anabl a'u teuluoedd sy'n agos i'w cartrefi (Tudalennau 101 – 104)

Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

- 3.15 P-04-399 Arferion lladd anifeiliaid (Tudalennau 105 – 106)
- 3.16 P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Tudalennau 107 – 109)

4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: 10.00

Eitem 5

5. **P-04-335 Sefydlu tîm criced cenedlaethol i Gymru: Materion allweddol 10.00 – 10.15**
6. **Derbynioldeb – materion nad ydynt wedi'u datganoli 10.15 – 10.30**
7. **Papurau i'w nodi** (Tudalennau 110 – 123)

Ymatebion i'r ymgynghoriad ar P-04-410 Cofeb Barhaol i Weithwyr Cymru

Eitem 2.1

P-04-448 : Gwella gwasanaethau iechyd rhywiol yng ngorllewin y Fro

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyllid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Dylid defnyddio'r cyllid ychwanegol hwn i wella gwasanaethau iechyd rhywiol yng ngorllewin y Fro.

Gwybodaeth ychwanegol

Ar hyn o bryd, cynhelir dim ond un clinig yr wythnos bob amser cinio ar ddydd Gwener yn Llanilltud Fawr. Mae'r clinig hwn yn gwasanaethu pawb yng ngorllewin y Fro. Mae'n darparu gwasanaethau cyngor iechyd rhywiol a chynllunio teulu. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn ddigonol i ateb gofynion yr ardal ddaearyddol fawr hon. Cynhelir tri chlinig yr wythnos yn nhref y Barri. Helpwch ni i wella iechyd rhywiol nifer o bobl ifanc a phobl agored i niwed nad ydynt yn gallu teithio 10 milltir neu fwy yn aml i glinig lleol. Mae'r clinigau hyn yn cynnig gwybodaeth/addysg/cefnogaeth/triniaeth feddygol hanfodol y mae ar bobl ifanc eu hangen. Gall gwella gwasanaethau iechyd rhywiol helpu i ddangos y ffordd i'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, i'w cefnogi ac i ofalu amdanynt. Helpwch ni i wneud gwahaniaeth. Er bod cyfraddau beichiogrwydd ymysg y glasoed yn gostwng, mae cyfraddau erthylu yn codi (fel y dyfynnwyd gan Helen Rogers, Cyfarwyddwr Coleg Brenhinol y Bydwagedd, ffynhonnell BBC Wales 29/03/12). Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, addawodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cynyddu'r cyllid drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru i wella mynediad i ganolfannau iechyd rhywiol integredig (BBC Wales 29/03/12). Daw'r bobl ifanc hyn sy'n agored i niwed yn aml o deuluoedd difreintiedig, nad ydynt yn cael y gofal sydd ei angen arnynt. Pe bai'r bobl ifanc hyn yn byw yn y Barri, byddent yn cael gwasanaeth llawer gwell. Caiff ardal wledig y Fro ei diystyru fel ardal "gyfoethog", ond mae enghreifftiau o amddifadedd economaidd-gymdeithasol i'w cael yn yr ardal. Mae angen rhagor o glinigau. Mae Cymru am gael "Gwasanaeth Iechyd o'r Safon Uchaf" ar gyfer y dyfodol. Y bobl ifanc hyn yw ein dyfodol. Gall beichiogrwydd/erthyladau ymysg y glasoed gael effaith niweidiol eang ar bobl ifanc yng Nghymru. Gellir atal clefydau a drosglwyddir yn rhywiol os rhoddir y wybodaeth gywir i bobl.

Prif ddeisebydd: Rebecca Lowrie

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 29 Ionawr 2013

Nifer y llofnodion: 16

P-04-448: Improve Sexual health services for Western Vale – Additional information from Petitioner

Dear Mr Williams

Thank you for taking the time to listen to my concerns, apologies for interrupting your evening.

I will forward the agenda for 28th January, I would be grateful if the town council would consider this issue at it's next meeting.

Currently Cardiff & Vale UHB fund 1 x clinic (11-1pm every Friday) for family planning/contraception services. This clinic is attended by children as young as 12 who feel unable to approach their GP and value the non judgemental holistic, professional care this service provides.

I am a community nurse working within this locality, I am also a resident of Llantwit Major and mother of 3 girls. I was shocked to learn that this is the only such clinic for the entire western vale. I subsequently placed an e petition with the assembly. This petition requested WAG to increase funding to the UHB to increase services (Barry alone currently has 3 clinics) I have since learned that there are rumoured plans to remove the service completely in favour of an ISHC in Barry.

Just last year in a BBC Wales report on this subject WAG made a promise to improve access and funding for sexual health services in Wales. This statement followed concerns raised by the head of midwifery who cited that the numbers of abortions within the <18 age group and risen significantly.

As a current Bsc student at Cardiff University I have identified this issue as a very real health inequality and testament to the fact that the postcode lottery is alive and well in Wales, especially within rural areas.

The vale of Glamorgan is all too often wrongly perceived as an affluent area. As a local community nurse I see very real pockets of poverty. These families have the added challenge of facing a disparity in service provision. Projects such as sure start/flying start are widely available in Barry or Bridgend but not the western vale.

As a resident/mother/nurse I feel strongly that we can not allow yet another service to be taken away. How much longer should residents tolerate paying their hard earned money in taxes only to discover that services are to be provided outside of their area?

This clinic currently cares for the young and vulnerable in our

community. Our government and health service has a duty to protect such vulnerable groups.

As a constituent I am asking my Town council to help prevent the loss of yet another service in the Western Vale.

Kind regards
Becky lowrie

Eitem 2.2

P-04-449 : Ysbyty Tywysoges Cymru Pen-y-bont ar Ogwr – Achub ein Gwasanaethau – Atal yr Israddio!

Geiriad y ddeiseb:

Ddydd Mercher 26 Medi 2012, cyhoeddodd Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe Bro Morgannwg newidiadau a allai gael effaith radical ar sut mae ein gwasanaethau ysbyty yn cael eu darparu ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Er nad oes unrhyw beth yn bendant, mae'n debygol, os caiff y newidiadau eu rhoi ar waith, o arwain at golli rhai agweddau ar ofal pediatrig, obstetreg, newydd-anedig a damweiniau ac achosion brys. Yn syml, os oes arnoch angen gofal dwys, os oes gennych blentyn sâl neu os ydych yn debygol o gael beichiogrwydd a allai fod yn gymhleth, bydd raid i chi deithio i Gaerdydd, Abertawe neu un o'r Safleoedd Gwasanaethau Arbenigol eraill yn Ne Cymru. Mae poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn tyfu o hyd; felly, rydym angen mwy, nid llai, o wasanaethau lleol. Rydym yn condemnio cynlluniau Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe Bro Morgannwg yn chwyrn, ac yn mynnu bod Llywodraeth Cymru yn gwario mwy o'i chyllid ar gynnal y gwasanaethau lleol hanfodol hyn yn hytrach na pheryglu bywydau'r cleifion sy'n fwyaf agored i niwed. Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddiogelu gwasanaethau yn Ysbyty Tywysoges Cymru Pen-y-bont ar Ogwr a sicrhau bod yr ysbyty yn cadw'r holl wasanaethau hanfodol hyn heb orfod israddio.

Prif ddeisebydd: Ian Matthew Spiller

Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 29 Ionawr 2013

Nifer y llofnodion: 4,218

Eitem 2.3

P-04-450 : Mae Angen Ysbyty Cwbl Weithredol ar y Barri a Bro Morgannwg

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gan Ysbyty'r Barri uned mân anafiadau cwbl weithredol, sy'n agored i gleifion am 8 awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos.

Gwybodaeth ategol: Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r gorau i sefyll yn ei hunfan ond i ymyrryd yn y modd y mae Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro yn cynnal Ysbyty'r Barri. Mae'r ymddiriedolaeth wedi camarwain pobl y Barri a'r Fro ers digon o amser, gan ddefnyddio esgusodion fel salwch staff a phwysau gwaith. Mae ar bobl y Barri a'r Fro angen Uned Mân Anafiadau cwbl weithredol.

Mae hyn yn annerbyniol ar gyfer ysbyty sydd â dalgylch o faint y Barri a Bro Morgannwg. Y rhesymeg a ddefnyddir am y problemau hyn yw bod 'Uned Mân Anafiadau Ysbyty'r Barri yn wasanaeth hynod o brysur sydd o dan bwysau gwaith sylweddol ar hyn o bryd oherwydd salwch staff ac absenoldeb mamolaeth. O ganlyniad i hyn, ac am resymau diogelwch, bydd yr Uned yn cael ei chynnal ar sail llai o oriau am gyfnod amhenodol. Bydd yr uned yn agor am 8.30am, a bydd yn cau i gleifion newydd am 2pm. Golyga hyn y byddwn, ar ôl 2pm, yn trin y cleifion hynny sydd eisoes yn aros yn unig.' (dyfyniad o'r wefan swyddogol)

Prif ddeisebydd: Jeffrey Heathfield

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 29 Ionawr 2013

Nifer y llofnodion: 50

P-04-451 : Achub Gwasanaethau Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i achub ein gwasanaethau iechyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Mae penderfyniad yn cael ei wneud a fydd, os caiff ei roi ar waith, yn arwain at golli rhai agweddau ar ofal pediatrig, obstetreg, newydd-anedig a damweiniau ac achosion brys. Yn syml, os oes angen gofal dwys arnoch, os oes gennych blentyn sâl neu os ydych yn debygol o gael beichiogrwydd a allai fod yn gymhleth, bydd rhaid i chi deithio i Gaerdydd, Merthyr neu Benty-bont ar Ogwr. I breswylwyr Rhondda Cynon Taf sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, gallai hyn olygu teithio am dros ddwy awr i fynd i apwyntiadau hanfodol. Mae preswylwyr Rhondda Cynon Taf sydd wedi llofnodi isod yn cefnogi'n gryf opsiwn 5.2 o dan y cynigion a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau iechyd, "Gwneud Cystal â Goreuon y Byd — yr Heriau sy'n Wynebu Gwasanaethau Ysbyty yn Ne Cymru". Rydym hefyd yn cefnogi'r galw i gadw a datblygu cyfleusterau a gwasanaethau Ysbyty Brenhinol Morgannwg i sicrhau bod pobl Rhondda Cynon Taf yn gallu derbyn a chael gafael ar y gwasanaethau y maent yn eu haeddu o fewn ffiniau'r sir.

Prif ddeisebydd: Cyng. Mark Adams

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 29 Ionawr 2013

Nifer y llofnodion: 1077

Eitem 2.5

P-04-452 : Hawliau Cyfartal i Bobl Ifanc Tiwb-borthedig

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid ar gael i sicrhau bod yr offer a'r gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc tiwb-borthedig ar gael iddynt.

Er enghraifft, ar hyn o bryd mae hawliau cyfartal ar gyfer pobl ifanc tiwb-borthedig yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn syrthio rhwng 2 gategori o angen sydd wedi'u diffinio. Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn dweud oherwydd nad ydynt yn blant sydd angen Gofal Iechyd Parhaus - 'dim ond' plant tiwb-borthedig ydynt - ni all ariannu'r offer a'r gwasanaethau hanfodol yr ydym eu hangen. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili hefyd yn dweud na allant helpu oherwydd bod gan y plant hyn anghenion iechyd sylweddol. Mae'r diffiniadau hyn yn cau Pobl Ifanc Tiwb-borthedig allan ac felly'n gwahaniaethu yn eu herbyn, ac rydym yn mynnu bod ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r arferion hyn yng Nghaerffili. Er nad yw'n pobl ifanc yn gymwys i gael cymorth naill ai gan y gwasanaethau iechyd ym Mwrdeistref Caerffili neu'r gwasanaethau cymdeithasol, mae gennym berson ifanc sydd angen gofal bob awr o'r dydd - yr un peth â phlentyn newydd-anedig - sydd yn aml ag anabledau oherwydd salwch sy'n peryglu bywyd.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae angen 'label' ar ein pobl ifanc er mwyn iddynt allu gael mynediad awtomatig at gyllid ar gyfer offer a gwasanaethau hanfodol. Ar hyn o bryd, mae dadlau cyllidol rhwng adrannau'n digwydd yn dilyn cais am unrhyw beth ar gyfer Person Ifanc Tiwb-borthedig, a ni ddylai Rhieni/Gofalwyr fod yn rhan o'r dadleuon hyn. Y cyfan sydd ei angen arnom yw help i'n pobl ifanc cyn gynted â phosibl. Gofynnwn fod ateb cyflym yn cael ei ganfod i'n Pobl Ifanc ac er lles eu Rhieni/Gofalwyr, a bod yr ateb hwnnw'n un synhwyrol sy'n berthnasol yn yr hir dymor.

Prif ddeisebydd: Dr Tymandra Blewett-Silcock

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 29 Ionawr 2013

Nifer y llofnodion: 142

P-04-453 : Gwelliannau ym Maes Awyr Caerdydd

Geiriad y ddeiseb:

Nod y ddeiseb hon yw nodi pryder am y diffyg gwasanaethau yn ein maes awyr cenedlaethol. Rydym am ddenu rhagor o gwmnïau awyrennau a busnesau i faes awyr Caerdydd, i ddinas Caerdydd ac i gymunedau ehangach De Cymru. Mae Fly Cardiff yn gobeithio cydweithio â'r maes awyr, a gweithredu fel dolen rhwng y maes awyr, ei gwsmeriaid a Llywodraeth Cymru.

Prif ddeisebydd: Kelvin Hayes

Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 29 Ionawr 2013

Nifer y llofnodion: 144

Eitem 2.7

P-04-454 : Gwahardd yr Arfer o Ddal Swyddi fel Cynghorydd ac fel Aelod Cynulliad ar yr un Pryd

Geiriad y ddeiseb:

Mae'r deisebydd yn gofyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i wahardd yr arfer y mae saith Aelod Cynulliad yn ei ddilyn ar hyn o bryd sef dal DWY swydd etholedig ar yr un pryd, sef swydd fel Cynghorydd o fewn awdurdodaeth Cymru yn ogystal â swydd fel Aelod Cynulliad etholedig yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Prif ddeisebydd: Nortridge Perrott

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 29 Ionawr 2013

Nifer y llofnodion: 52

Eitem 2.8

P-04-452 : Achub adran achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip

Geiriad y ddeiseb:

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn bwriadu israddio neu gau'r gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip. Mae hwn yn wasanaeth hanfodol i Lanelli a'r cymunedau lleol a rhaid i'r gymuned weithredu i achub ein Hadran Ddamweiniau ac Achosion Brys. Llofnodwch y ddeiseb hon i atal y gwasanaeth hanfodol hwn rhag cau, ac i sicrhau nad yw bywydau yn y fantol o ganlyniad i gam o'r fath.

Prif ddeisebydd: Angharad Howells

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 29 Ionawr 2013

Nifer y llofnodion: 1038

Eitem 3.1

P-04-421 : Rhwystro Trident rhag dod i Gymru

Geiriad y ddeiseb

Mae'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, wedi dweud y byddai croeso mawr i fflyd niwclear y DU (Trident) ddod i Aberdaugleddau pe byddai Alban annibynnol am gael gwared arnyn nhw. Rydym ni'n gwrthwynebu cael arfau dinistriol o'r fath (WMD) yng Nghymru, ac yn annog Llywodraeth Cymru i wrthwynebu'r syniad o ganiatau fflyd niwclear y DU i ymgartrefu yng Nghymru

Prif ddeisebydd: Mabon ap Gwynfor

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 2 Hydref 2012

Nifer y llofnodion: 1236



Eich cyf/Your ref: P-04-421

William Powell AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebiadau

28ain o Dachwedd 2012

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13eg o Dachwedd yn eich rhinwedd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebiadau.

Mae'r holl faterion yn ymwneud â Trident yn rhan o gyfrifoldeb Llywodraeth Y Deyrnas Unedig. Nid wyf yn credu y byddai o ddefnydd i Lywodraeth Cymru gymryd rhan ymhellach mewn trafodaeth gyhoeddus ar sefyllfa ddamcaniaethol yn ymwneud â gallu niwclear y DU.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Carwyn Jones', written in a cursive style.

CARWYN JONES

Eitem 3.2

P-04-434 : Mae'r Cymry a'r Somaliïd fel ei gilydd yn caru barddoniaeth

Geiriad y ddeiseb

Cynnig: Galwn ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef cenedl sy'n enwog yn fyd-eang am garu barddoniaeth, i ganmol y cariad tebyg ymysg ei dinasyddion o dras Somaliïd yn hynny o beth, y mae eu diwylliant traddodiadol yn ystyried mai barddoniaeth yw'r dull craidd o fynegi mewn diwylliant. Daw ein galwad ar ddechrau'r Cadoediad Olympaidd, sef y cyfnod a arferai ddechrau wythnos cyn y Gemau Olympaidd yn yr hen oes, a gorffen wythnos ar ôl iddynt ddod i ben, gan alluogi athletwyr i deithio'n ddirwyrstr drwy diroedd gelynion traddodiadol i gystadlu yn unol ag ymdeimlad ekecheiria, sef dal dwylo. A ninnau'n ddinasyddion Cymru, yn caru barddoniaeth, ac wedi ymrwymo i ymdrechu i sicrhau heddwch ym mhob gwlad, a rhwng y gwledydd, rydym yn croesawu Eisteddfod Genedlaethol Cymru, sydd, yn ein barn ni, yn uno'r gwerthoedd hyn. Rydym yn gwahodd pawb i ychwanegu eu henw at y ddeiseb, a gobeithiwn y byddwch yn hyrwyddo cysylltiadau rhwng cymunedau yn ein dwy wlad.

Prif ddeisebydd: Cyswllt Cymunedol Cymru Somaliland

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 6 Tachwedd 2012

Nifer y llofnodion: 30



William Powell AM
Chair, Petitions Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Your ref: P-04-434
Our ref: PO344

20 November 2012

Ieuan Williams

Thank you for your letter of 13 November concerning the petition from Wales Somaliland Communities Link. I am delighted that the group has engaged with the Assembly and agree with them that Wales is certainly a country that has a love for poetry. Poetry is rooted in our culture and celebrated in various forms including at our Eisteddfodau which is acknowledged in the petition. Please pass on my thanks to the Wales Somaliland Communities Link for bringing this shared cultural interest to our attention.

Rosemary

Rosemary Butler AM, Presiding Officer

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8911

Ebost/Email: private.office@wales.gov.uk

Eitem 3.3

P-04-322 Galw am ryddhau gfael Cadw ar eglwysi yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i bwysu ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i mewn i ran Cadw yn y broses o roi caniatâd cynllunio i adeiladau rhestredig er mwyn gwneud gwaith addasu i eglwysi. Mae hyn yn rhwystro cynulleidfaoedd gweithgar a hyfyw rhag defnyddio adeiladau rhestredig yng Nghymru a, thrwy hynny, cânt eu cadw mewn cyflwr o inertia pensaernïol: nid ydynt yn gallu elwa ar ddatblygiadau modern mewn deunyddiau adeiladu, ac mae'n anodd i eglwysi wneud y newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt wasanaethau'r genhedlaeth nesaf a'r gymuned leol.

Cynigwyd gan: Graham John

Nifer y llofnodion: 147

Ystyriwyd am y tro cyntaf: Mehefin 2011

Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Minister for Housing, Regeneration and Heritage



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref HL/06603/12

William Powell AM

Chair Petition's committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

8 January 2013

Dear William,

Thank you for your letter of 14 December 2012 regarding the setting up of a task and finish group to look at ecclesiastical exemption.

I have asked my officials to set up such a group and all the denominations that are party to the exemption have been invited to a first meeting in January. The terms of reference for the group will be to consider any existing issues with the operation of the system such as where exemption does not apply (known as dual control); revisit recommendations made in the Howell report (a review of the system of ecclesiastical exemption in Wales); and to identify and examine issues related to the decline in listed places of worship in active use to help inform future Cadw policy and guidance on redundant listed places of worship.

I am happy to keep you informed as the discussions progress.

Yours sincerely


Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Minister for Housing, Regeneration and Heritage

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

Tudalen 16

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.huw.lewis@wales.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper



Ebenezer Baptist Church
Ebenezer Street, Swansea. SA1 5BJ

Pastor: Rev Graham John



14th January 2013

Dear Chair of Petitions committee

Would you be so kind enough to ask Mr Huw Lewis AM whether the task and finish group looking at ecclesiastical exemption mentioned in his letter addressed to you dated 8th January has taken adequate steps to contact the independent churches in Wales which in a previous correspondence he admitted had been left out of the process due to difficulties in identifying them.

I fear that the group has simply sent out invitations to the denominations that were on their database.

May I suggest he asks his task and finish group to send invitations to the following groups which represent well over 100 independent churches in Wales:

1. Evangelical Alliance Wales

Address: The Secretary EA Wales, 20 High Street, Cardiff. CF10 1PT

Tel: 029 2022 9822 wales@eauk.org

2. Associated Evangelical Churches of Wales

Address: The AECW Secretary, Pennant, 110 Coed Onn Road, Flint, Flintshire. CH6 5QE.

Tel: 01352 732308 secretary@aecw.org.uk

3. Fellowship of Independent Evangelical Churches

Address: 39 The Point, Market Harborough, LE16 7QU

01858 43 45 40 admin@fiec.org.uk

Yours sincerely

Rev Graham John

P-03-236 Siarter i Wyrion ac Wyresau

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Siarter i Wyrion ac Wyresau ac i wneud y Siarter yn orfodol i weithwyr proffesiynol a gyflogir i warchod lles plant.

Cynigwyd gan: Grandparents Apart Wales

Ystyriwyd gan y Pwyllgor am y tro cyntaf: Mis Hydref 2009

Nifer y llofnodion: 19

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Health and Social Care Committee**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



William Powell AC AM
Chair, Petitions Committee
Cadeirydd, Pwyllgor Deisebau

11 December 2012

Dear William,

Petition on The Charter for Grandchildren (P-03-236)

Thank you for your letter of 28 November regarding the petition on The Charter for Grandchildren.

As you will be aware, the Social Services (Wales) Bill is yet to be formally introduced. Should the Bill be remitted to the Health and Social Care Committee by the Business Committee for legislative scrutiny, we will seek to consider the issues raised by the petitioners and include them in any consultation we run.

Yours sincerely,

Mark Drakeford

Mark Drakeford AC AM
Cadeirydd - Chair

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ffôn /Tel: 029 2089 8403
E-bost /Email: HSCCommittee@wales.gov.uk

P-03-236: The Charter for Grandchildren – Additional Information from Petitioner

Dear Sian,

19th January 2013

Thank you for your email of the 14th January 2013 advising us of the next meeting of the Petitions Committee which is to be held on the 29th January 2013.

We have had no correspondence from you to respond to, so we suppose that the correspondence written by us to the committee for the meeting of the 20th November 2012 will be available at the above committee meeting.

Even with the inclusion of the UN Convention on the Rights of a Child in Domestic Law supported by the Social Services Wales Bill the position of many grand/parents being denied access to their grand/children is still intolerable and cluttering our family and county courts.

Such long term court actions have a detrimental consequence on some children which is agreed by governments, without them taking radical action to guillotine cases that go on for years, as many of them do, at colossal cost to the individuals involved and tax payers.

We still wish to pursue, equal rights for parents and compulsory mediation which we think would assist the courts.

We welcome the amount of support that is available from Cafcass Cymru's website as well as the information accessible on the Social Serves Wales Bill but only when society recognises the needs of children to have contact with the people that they love and cherish, will we start eradicating the emotional damage inflicted on many children.

A Charter for Grandchildren supports the family and puts children first. It is a concept created to protect the rights of the child and does not come into conflict with any other legislation which would appear to be similar in aims and principles.

It compliments them and we believe given your support, it would lead to a greater recognition of the importance that grandparents are to children which is acknowledged by all governments in the UK.

Kind regards.

Frank Bradfield.

Grandparents Apart Wales

Eitem 3.5

P-03-187 Diddymu'r Tollau ar y ddwy Bont Hafren

Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y DU yn San Steffan i wneud popeth o fewn ei allu i ddiddymu'r tollau ar ddwy bont Hafren.

Cynigwyd gan: John Warman

Ystyriwyd gan y Pwyllgor am y tro cyntaf: Mawrth 2009

Nifer y llofnodion: 23

Llywodraeth Cymru

**Effaith Tollau'r Hafren ar
Economi Cymru**

Crynodeb gweithredol

216322

Cyhoeddi | 30 Mai 2012

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfarwyddiadau a gofynion penodol ein cleient.

Nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti ac ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu arno ac nid ymgymerir â chyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti.

Rhif gwaith 216322

ISBN 978 0 7504 8036 9

Ove Arup & Partners Ltd
4 Pierhead Street
Capital Waterside
Caerdydd CF10 4QP
Y Deurnas Unedig
www.arup.com

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Croesfannau Hafren yw'r prif borth i Dde Cymru, yn darparu ar gyfer traffig dyddiol o ryw 80,000 o gerbydau ar gyfartaledd. Agorwyd Pont gyntaf Hafren i draffig ym 1966. Agorwyd Ail Groesfan Hafren ym 1996 ac mae'r ddwy bont bellach yn gweithredu gyda'i gilydd. Mae system dollau wedi bod ar waith dros fodolaeth gyfan Croesfannau Hafren, ac, fel gyda'r rhan fwyaf o dollbontydd o amgylch y byd, mae'r taliadau wedi'u defnyddio i dalu am eu hadeiladu, eu cynnal a'u cadw a'u gweithredu trwy gytundeb consesiwn gyda gweithredwr preifat.

Daw'r cytundeb consesiwn sydd ar waith ar hyn o bryd i ben ar y pwynt pan fydd y gweithredwr wedi casglu £996m ar brisiau 1989. Mae amcangyfrifon diweddar wedi awgrymu y gellid cyrraedd y pwynt hwn erbyn oddeutu 2017. Ar ôl i'r cytundeb consesiwn ddod i ben, bydd perchenogaeth (yn ogystal â'r baich cynnal a chadw yn y dyfodol) yn trosglwyddo'n ôl i Lywodraeth y DU. Mae hyn yn cynnig y cyfle i ystyried goblygiadau posibl dewisiadau eraill i'r gyfundrefn bresennol o godi tâl ar ddefnyddwyr ar Groesfannau Hafren.

Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddwyd adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig i Doll Croesfannau Hafren. Un o brif ganfyddiadau'r Pwyllgor oedd diffyg tystiolaeth gadarn ar gyfer effaith y tollau. Yr astudiaeth hon, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan Arup a Phrifysgol Gorllewin Lloegr (UWE), yw'r asesiad cynhwysfawr cyntaf o effaith y tollau ar Groesfannau Hafren.

Dull Astudio

Mae'r berthynas rhwng Croesfannau Hafren ac economi Cymru yn un mor gymhleth fel bod yr astudiaeth yn cwmpasu ystod eang o faterion yn ymwneud â thrafnidiaeth a materion economaidd. Cylch gorchwyl yr astudiaeth yw asesu effaith y tollau ar Groesfannau Hafren mewn perthynas â phatrymau traffig, yr amgylchedd, effeithiau ar ddefnyddwyr a busnesau, effeithiau ar y farchnad lafur, dylanwadau ar leoliad busnes a'r effeithiau ar berfformiad economaidd cyffredinol De Cymru, a'r effeithiau cymharol ar Dde-orllewin Lloegr.

Mae'r astudiaeth yn defnyddio nifer o senarios i ystyried effaith bosibl ystod o gyfundrefnau eraill codi tollau pe baent yn cael eu cyflwyno ar ôl 2017. Er symlrwydd, dewiswyd tri senario gwahanol, a chymharwyd pob un ohonynt yn erbyn senario 'gwneud cyn lleied â phosibl' pan dybir y bydd y tollau'n aros heb eu newid (mewn termau real¹) o'r lefelau presennol:

- *Senario 1 – Gostwng tollau 50% ar y ddwy bont;*
- *Senario 2 – Diddymu tollau o Groesfannau Hafren, a;*
- *Senario 3 – Cynyddu tollau 50% ar y ddwy bont.*

Bwriadwyd i'r senarios archwilio effeithiau posibl diddymu neu ostwng tollau. Defnyddiwyd cynnydd cyfwerth yn y doll hefyd i archwilio cymesuredd neu fel arall

¹ Mae hyn yn gyfwerth â'r trefniant presennol o dan y cytundeb consesiwn yn ôl pa un y caiff prisiau tollau eu haddasu ar ddechrau bob blwyddyn 'yn ôl yr un ganran â'r gwahaniaeth canran rhwng y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Mawrth 1989 a'r mynegai prisiau manwerthu ar gyfer y mis Medi'n union cyn gwneud y gorchymyn'. (Deddf Pontydd Hafren 1992, <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1992/3/section/9>). Caiff yr addasiad ei dalgrynnu i'r 10 ceiniog agosaf.

effaith cynnydd neu ostyngiad yn y doll. Mae pob un o'r senarios wedi'u gwneud yn syml iawn ac ni fwriadwyd i'r un o'r senarios gynrychioli cynigion polisi.

O gofio nad yw lefel y doll wedi newid (mewn *termau real*) dros y degawd diwethaf (gan yr addasir y tollau yn unol â chwyddiant), nid yw'r astudiaeth yn gallu dod i gasgliadau o newidiadau hanesyddol yn y doll ar Groesfan Hafren. Felly, mae casgliadau'r asesiad wedi'u seilio ar yr hyn y gallwn ei gasglu o batrymau ymddygiad presennol, ar dystiolaeth eilradd, a thrwy ymddygiad trafndiaeth wedi'i fodelu ac effeithiau economaidd gan adeiladu ar ragdybiaethau rhesymegol yn seiliedig ar dystiolaeth. Ymgwymerwyd â'r gwaith ymchwil a dadansoddi canlynol:

- Adolygiad llenyddiaeth o effaith tollau ffyrdd, gan gynnwys tollbontydd, mewn mannau eraill;
- Modelu traffig a thrafnidiaeth ar lefel uchel;
- Arolwg o fusnesau yn Ne Cymru a De-orllewin Lloegr;
- Cyfweiliadau manwl â detholiad o fusnesau a grwpiau cynrychioliadol;
- Arolwg o ddefnyddwyr yn Ne-orllewin Lloegr, a;
- Modelu effeithiau codi tollau ar gynhyrchiant.

Patrymau Traffig a Theithio Croesfannau Hafren

Yn seiliedig ar ddata cyfrif cerbydau dwy ffordd, er 2003 bu twf cyson yn y traffig ar draws Ail Groesfan Hafren yr M4, gyda thwf blynyddol cyfartalog o 1.78% dros y cyfnod, o gymharu â 0.63% ar draws rhwydwaith traffyrdd y DU. Yn 2008, o ran Traffig Dyddiol Cyfartalog bob Blwyddyn², fe wnaeth 61,455 o gerbydau groesi Ail Groesfan Hafren yr M4 bob dydd, ac fe wnaeth 17,772 groesi Croesfan Hafren yr M48 bob dydd. Mae'r M48 yn cludo mwy o draffig lleol ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn cychwyn / gorffen eu teithiau yn Sir Fynwy, Bryste a De-orllewin Lloegr, tra bod yr M4 yn fwy strategol o ran natur yn gwasanaethu marchnad ehangach o lawer, gyda theithwyr yn cychwyn ac yn gorffen eu teithiau ar draws pob ardal o Dde Cymru ac ar draws De Lloegr.

Mae anghydbwysedd bach o ran cyfeiriad, gyda 4.7% yn fwy o draffig yn teithio i gyfeiriad y dwyrain o gymharu â thraffig yn teithio i gyfeiriad y gorllewin. Y ffaith mai dim ond ar draffig sy'n teithio tua'r gorllewin y codir y doll sydd i gyfrif am hyn, ac felly mae cyfran fach o draffig sy'n croesi yn defnyddio llwybr gwahanol i wneud y daith tua'r gorllewin (trwy Gaerloyw).

Costau Uniongyrchol Tollau'r Hafren

Yn 2011, cost y doll oedd £5.70 fesul car, neu £11.50 i fysics bach ac i gerbydau nwyddau hyd at 3.5 tunnell fetrig, a £17.20 i gerbydau trwm dros 3.5 o dunelli metrig. Fel y nodwyd, addasir y doll yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Er 2000, roedd twf Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) enwol y pen a chyflogau yng Nghymru yn uwch na chyfradd twf pris y doll tan y dirwasgiad a ddechreuodd yn 2008. Dros y cyfnod 2000 i 2010, mae'r doll wedi aros heb newid i raddau helaeth o gymharu â'r GYC y pen a chyflogau. Mae cynnydd mewn costau tanwydd, costau cynnal a chadw cerbydau a chostau treth ac yswiriant cerbydau wedi bod gryn dipyn yn uwch na thwf ym mhrys y doll. Fodd bynnag, mae costau prynu cerbydau wedi gostwng er 2000 i'r graddau bod cyfanswm chwyddiant 'gwariant moduro' wedi codi'n arafach na phris y doll.

² Nifer y cerbydau yn teithio i'r ddau gyfeiriad bob dydd, wedi'i gyfartaleddu dros y flwyddyn, a gymerir o ddata cyfrif cerbydau awtomatig yn cael ei ddarparu gan Traffig Cymru.

Mae'r doll yn cynyddu cost siwrneiau rhwng De Cymru a rhannau o Dde a De-orllewin Lloegr. Mae'n ddefnyddiol gosod cost y doll yng nghyd-destun cyfanswm costau siwrneiau, gan ystyried costau tanwydd, costau cynnal a chadw cerbydau a chostau dibrisiant yn ogystal â chost cyfle amser a dreulir yn teithio. Caiff costau cyfartalog a 'gwerthoedd amser' ar gyfer defnyddwyr ffordd gwahanol eu darparu gan yr Adran Drafnidiaeth at y diben hwn.

Mae cyfran costau teithiau y cyfrifir amdanynt gan y doll yn amrywio'n fawr ar draws mathau gwahanol o ddefnyddwyr. Ar gyfer taith mewn car (ac eithrio cymudwyr a theithiau busnes) mae'r doll yn rhyw 19% o gostau taith ar gyfer siwrnai rhwng Caerdydd a Bryste³. I deithiwr busnes, o ystyried gwerth amser cynhyrchiol a gollir, mae costau tollau'n disgyn i ryw 8% o gostau taith. Ar gyfer cerbydau nwyddau sy'n gwneud taith gyfwerth, mae tollau yn 23% o gyfanswm costau siwrneiau i gerbyd nwyddau ysgafn a 21% i gerbyd nwyddau trwm. Mae effaith gymesur y doll yn disgyn gyda'r pellter a deithir.

Costau Tollau Blynyddol

Roedd cyfanswm refeniw o'r tollau (y ddwy groesfan gyda'i gilydd) yn 2010 yn £76m. Gan gymryd holl daliadau tollau cerbydau nwyddau a thaliadau tollau defnyddwyr busnes, gellir amcangyfrif yn fras mai cyfanswm costau uniongyrchol tollau ar fusnesau yw £47m (heb gynnwys TAW) ar brisiau 2009, gyda'r £34m (yn cynnwys TAW) sy'n weddill yn cael ei dalu gan ddefnyddwyr. Felly, mae cyfanswm y gost i fusnesau a defnyddwyr, ar ôl ystyried TAW, dros £80m y flwyddyn.

Mae costau uniongyrchol pellach yn cael eu gosod gan y doll yn sgil y costau sy'n gysylltiedig ag amser oherwydd yr oedi stopio-cychwyn wrth y bythod tollau a'r effaith ar yrwyr sy'n cymryd llwybrau amgen ac sydd felly yn gweld amserau siwrneiau hwy a chostau uwch. Ymddengys mai cyfran gymharol fach o deithiau a wneir gan yr olaf hwn (yn seiliedig ar yr anghydbwysedd bach o ran cyfeiriad).

I'r gwrthwyneb, mae tollau a thaliadau defnyddwyr yn gysylltiedig yn aml â chael effeithiau lleddfud tagfeydd sy'n lleihau tagfeydd ac yn gwella amserau siwrneiau i ddefnyddwyr eraill sy'n fodlon talu tollau. Er nad yw hwn yn brif ffactor i Groesfannau Hafren (o ystyried bod y Croesfannau eu hunain yn gweithredu ymhell o fewn capasiti), mae modelu traffig yn awgrymu bod y tollau'n debygol o gael effaith gadarnhaol fach ar lifoedd traffig mewn manau eraill ar y rhwydwaith.

Nid oes data ar gael sy'n galluogi gwneud asesiad cywir o'r modd y rhennir y costau hyn rhwng cerbydau a busnesau yng Nghymru, neu mewn manau eraill. O ystyried ei bod yn debygol fod rhywfaint o 'basio costau drwodd' neu rannu costau'r doll rhwng y sawl sy'n talu'r doll a'r cwsmer olaf, mae hyn yn gymhleth iawn. Yn y naill achos (ac eithrio arwyddocâd siwrneiau drwodd i ac o Iwerddon) mae'r tollau yn gost a osodir ar drafodion economaidd rhwng De Cymru a De a Gorllewin Lloegr.

Effeithiau ar Draffig a Thrafnidiaeth

Tystiolaeth o Dollbyrth mewn Manau Eraill

Mae tystiolaeth empirig am elastigedd y galw⁴ mewn perthynas â thollau ffyrdd yn gyfyngedig oherwydd prinder cymharol tollffyrdd a chroesfannau ledled y byd, yn

³ Yn seiliedig ar y rhan o Gaerdydd i Fryste o daith ddwyffordd, gan gymryd bod hanner cost y doll yn gymwys i bob rhan, dan amodau brig cyfartalog yn y bore.

⁴ Mewn economeg, mae elastigedd yn mesur sut mae newid mewn un newidyn yn effeithio ar un arall. Yn yr achos hwn, mae elastigedd y galw mewn perthynas â'r doll yn cyfeirio at sensitifrwydd y galw am deithio ar dollffordd i newidiadau ym mhrisiau'r doll. Caiff elastigedd prisiau (elastigedd pwynt) ei

ogystal â'r diffyg asesiad terfyn rhaglen yn dilyn cyflwyno neu ddi-ddymu tollau. Yn gyffredinol, mae elastigeddau tollau mewn astudiaethau presennol yn tueddu i fod yn seiliedig ar gyflwyno toll neu gynydd mewn lefel toll.

Mae elastigedd y galw mewn perthynas â tholl yn ddibynnol iawn ar ystod o ffactorau lleol a chyd-destunol. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu fod galw trafndiaeth yn gymharol anelastig i bris tollau, gydag elastigeddau prisiau tollau o fewn yr amrediad -0.1 to -0.5⁵ yn nodweddiadol. Un penderfynydd allweddol elastigedd y galw yw bod llwybr amgen, di-doll, ar gael, er bod llawer o ffactorau eraill. O gofio'r pellter teithio sy'n ofynnol i osgoi Croesfannau Hafren ar gyfer y rhan fwyaf o siwrneiau rhwng Cymru a Lloegr, gall fod yn rhesymol cymryd bod pris elastigedd y galw ar gyfer Croesfannau Hafren tuag at ben isaf yr amrediad hwn mae'n debyg.

Fel gydag effeithiau trafndiaeth, mae adolygiad o'r llenyddiaeth ar effeithiau economaidd tollffyrdd yn tynnu sylw at yr anhawster o gymhwyso profiad o rywle arall, o ystyried dylanwad cryf ffactorau lleol a chyd-destunol. Mae nifer o rag-astudiaethau sydd wedi ystyried beth allai ddigwydd pe bai toll yn cael ei diddymu, er nad oedd yr astudiaeth hon yn gallu nodi unrhyw dystiolaeth gymwys o'r effaith ar economïau lleol neu ranbarthol o astudiaethau a gynhaliwyd yn dilyn newid mewn cyfundrefn codi tollau.

Modelu Effeithiau Traffig a Thrafnidiaeth

Fel y nodwyd, am fod system dollau wedi bod ar waith ers eu hagor, nid oes unrhyw newid hanesyddol dibynadwy yn y gyfundrefn tollau i seilio amcangyfrif o effaith codi tollau ar alw traffig arno. Yn ogystal, mae'r diffyg llenyddiaeth gynhwysfawr am ymatebion tollau, a phwysigrwydd ffactorau penodol lleol, yn golygu mai'r dull mwyaf priodol o ddadansoddi pob un o'r senarios tollau yw dull modelu.

Defnyddiwyd model traffig yr M4 at y diben hwn o ystyried ei statws fel y prif fodel traffig sy'n cynnwys Croesfannau Hafren. Mae 'ardal graidd' y model traffig hwn yn cynnwys y rhwydwaith priffyrdd strategol yn Ne-ddwyrain Cymru i lefel fanwl iawn, gyda'r cwmnasiad ehangach yn ymestyn i mewn i rannau o Dde-orllewin Lloegr. Cafodd y model presennol (2010) a model blynyddoedd y dyfodol eu diweddarau i adlewyrchu newidiadau mewn llifoedd traffig ar draws y pontydd er 2005, gan ddefnyddio data cyfrif a ddarparwyd gan Traffig Cymru.

Ymgwymerwyd â dadansoddiad traffig lefel uchel ar gyfer pob un o'r senarios ar gyfer y blynyddoedd 2018, 2023 a 2028. Mae'r rhain yn darparu amcangyfrifon bras o newidiadau mewn llifoedd traffig ar sail y modelu.

Mae'r prif ganlyniadau o dan bob senario'n dangos y byddai gostwng y tollau 50% yn arwain at gynydd amcangyfrifedig yng nghyfanswm y traffig (fel yn erbyn senario 'gwneud cyn lleied â phosibl' sy'n debyg i'r taliadau tollau presennol) o 5% yn seiliedig ar amodau a ragwelir yn 2018. Byddai diddymu tollau'n gyfan gwbl (yn ogystal â diddymu unrhyw oedi o ran casglu tollau⁶) yn arwain at gynydd

fesur fel cymhareb y newid canran yn y galw i'r newid canran yn y pris. Yn nodweddiadol bydd elastigedd negyddol yn digwydd am y caiff y galw ei gyd-berthnasu o chwith â phris.

⁵ Ystyriod bod y galw yn *anelastig* os yw'r newid yn y galw yn llai na chymesur i'r newid yn y pris (h.y. mae'r elastigedd rhwng 0 ac 1 neu 0 a -1). O ystyried fod tollau'n cyfrannu at gyfran o gyfanswm costau siwrnai, nid yw hyn o angenrheidrwydd yn golygu fod galw cyffredinol trafndiaeth yn anelastig i gyfanswm costau trafndiaeth.

⁶ Mae'r oedi a wynebwr gan ddefnyddwyr yn y bythod tollau yn debygol o amrywio'n fawr ar hyd y diwrnod/wythnos/blwyddyn. Dim ond dull elfennol y gellid ei ddefnyddio i ymgorffori effeithiau oedi wrth y bythod tollau, a hynny'n seiliedig ar arsylwadau a gynhaliwyd yng ngwanwyn 2007.

amcangyfrifedig mewn traffig o 12%. Mae hyn yn gyfwerth ag oddeutu 11,000 o gerbydau bob dydd. Amcangyfrifir y bydd cynnydd yn y doll o 50% yn lleihau traffig o bron i 5%. Mewn gwirionedd, mae ymatebion traffig yn ddynamig a bydd ymddygiad defnyddwyr yn newid dros amser, tra bod y model traffig yn statig i bob pwrpas. Dylid nodi bod yr ymatebion traffig amcangyfrifedig i bob un o'r senarios codi tollau a amlinellir uchod, i bob diben, yn ymatebion tymor hir i newidiadau yn y doll.

Yn gyffredinol, o dan amodau cyffredin, byddai disgwyl i'r cynnydd mewn traffig o dan y senario diddymu'r doll yn arwain at newidiadau mylol yn llif a chyflymder traffig. Fodd bynnag, mae'r senarios yn tynnu sylw at effeithiau mwy arwyddocaol posibl yn nhwneli Bryn-glas lle cyfyngir ar gapasiti'n barod. Byddai angen cynnal asesiad manylach o ragolygon effeithiau traffig o dan amodau traffig amrywiol cyn gallu dod i gasgliadau pendant ynghylch yr effeithiau ar dagfeydd yn fwy cyffredinol. Mae'r dadansoddiad yn dangos hefyd y byddai gostwng neu ddiddymu'r tollau yn arwain at gynydd parhaol mewn allyriadau carbon, er y byddai cael gwared ar yr oedi wrth stopio-cychwyn wrth y bythod tollau yn cael rhywfaint o effaith gwrthbwysu. Byddai maint y newid yn fach mae'n debyg o gymharu â chyfanswm allyriadau o drafnidiaeth yng Nghymru.

Mae'r newidiadau uchod mewn galw traffig wedi'u cymhwysu i ddata diweddar ar refeniw tollau Croesfannau Afon Hafren plc er mwyn deall goblygiadau ariannol y senarios⁷. Cyfanswm y refeniw yn 2009 oedd £77.4m. Amcangyfrifir mai'r *gostyngiad* mewn refeniw pe bai'r doll yn cael ei haneru yw oddeutu £36m y flwyddyn (prisiau 2009), sef gostyngiad o 46%. Byddai cynnydd o 50% yn y doll yn arwain at refeniw *ychwanegol* o oddeutu £36m y flwyddyn, sef cynnydd o 41%. Ym mhob achos, mae'r newid mewn refeniw yn llai na chymesur i'r newid yn y doll oherwydd effaith gwrthbwysu llifoedd traffig uwch neu is.

Effeithiau ar Berfformiad a Lleoliad Busnes

Yn seiliedig ar yr ymatebion o'r arolwg busnes yn ogystal â thystiolaeth o gyfweiliadau manylach, cynhaliwyd dadansoddiad o effeithiau Croesfannau Hafren ar berfformiad ac ymddygiad busnes yn Ne Cymru, a'i allu i gystadlu.

Costau a Pherfformiad Busnes

Mae'r ymchwil yn cadarnhau pwysigrwydd Croesfannau Hafren i fusnesau yn Ne Cymru. O'r busnesau hynny y gwnaed arolwg ohonynt, roedd 50% o'r farn fod y croesfannau naill ai'n 'bwysig' neu'n 'bwysig iawn' i'w busnes. Mae cyfran y busnesau y mae'r tollau'n 'arwyddocaol' iddynt yn lleiafrif sylweddol, gyda 12% yn adrodd bod y tollau'n arwyddocaol ac 8% yn adrodd bod y tollau'n arwyddocaol iawn. Roedd barn busnesau ynglŷn â phwysigrwydd y tollau yn ymwneud yn agos â'r sector penodol, lleoliad a strwythur gweithredu'r busnes dan sylw. Heb fod yn annisgwyl, mae busnesau sy'n gweithio yn Ne Cymru'n fwy tebygol o ystyried bob y croesfannau a'r tollau'n bwysig na busnesau sy'n gweithio yn Ne-orllewin Lloegr.

Rhaid edrych ar arwyddocâd costau tollau, fodd bynnag, yng nghyd-destun costau gweithredu cyffredinol. I'r mwyafrif helaeth o fusnesau, mae costau tollau uniongyrchol yn gyfran fach iawn o gyfanswm y costau. I'r sector gwasanaethu a

⁷ Mae newidiadau amcangyfrifedig yn lefelau tollau a llifoedd traffig wedi'u cymhwysu i'r data diweddaraf sydd ar gael ar refeniw Croesfannau Hafren o 2009 a gymerwyd o Adroddiadau Blynyddol Croesfannau Afon Hafren plc. Mae'r dadansoddiad yn rhagdybio nad yw refeniw Croesfannau Afon Hafren plc wedi newid mewn termau real o 2009, ac mae'n anwybyddu effaith newidiadau yn y galw rhwng 2009 a 2018.

chwmmiau gweithgynhyrchu 'gwerth uchel', mae costau trafndiaeth yn gyfran fach o gostau cyffredinol yn nodweddiadol, ac felly mae taliadau tollau yn llai pwysig.

